Clwb Golff Dinbych

Cronicl Cae Drain

GAN GAPTEN Y DYNION

Ionawr 2011

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anrhydedd i mi gael fy mhenodi'n Gapten cyntaf y Dynion yng nghlwb Golff Dinbych ac rwy'n edrych ymlaen i gydweithio gyda Chapten y Merched, Miss Jane Williams, ac Aelodau Pwyllgorau i wneud ein gorau wrth reoli eich Clwb yn 2011. Rwy'n dymuno'n dda i Mr.Llywydd - Mr.Ted Wilding MBE, Is-Gapten y Dynion -Mr.Ian C Jones, ac Is-Gapten y Merched -Mrs.June Howatson yn eu cyfnod yn y swydd. Cofiwch mai gwirfoddolwyr yw'r holl Swyddogion ac Aelodau Pwyllgorau sy'n rhoi oriau maith o'u hamser er budd Clwb Golff Dinbych; hebddyn nhw, 'fyddai gennym ni ddim Clwb, felly rhowch eich cefnogaeth iddyn nhw. Diolch yn fawr i Gary Thomas (y cyn-Gapten diwethaf)) am ei gymorth gwerthfawr yn 2010 ac rwy'n dymuno'n dda iddo fel Cadeirydd Gornest a Handicap. Mae Peter H Jones wedi symud o fod yn Gadeirydd Cymdeithasol i gadeirio'r Pwyllgor Cyllid gyda Chapten y Merched yn dod yn Gadeirydd Cymdeithasol; pob lwc i chi'ch dau.

Uchafbwynt fy mlwyddyn fel Is-Gapten oedd dal ein gafael ar deitl Adran 1 UGD: diolch a llongyfarchiadau i bawb fu'n chwarae'n y gemau. Bydd I.C.Jones yn wynebu'r her o arwain y tîm eleni ac fel cefnogwr Man.United, sydd wedi arfer ennill, rwy'n hyderus y daw mwy o lwyddiant yn UGD yn 2011. (Dim pwysau, IC!)
Rwy'n falch o barhau fel Cadeirydd y Cwrs yn 2011, gan fod parhad yn beth pwysig. Rown i'n gweithio'n agos gyda Karl a'i Dîm y llynedd ac wedi mwynhau'r profiad. Diolch i'w gwaith caled, roedd y cwrs mewn cyflwr ardderchog drwy'r haf ac mae'n dal yn bleser i'w chwarae hyd yn oed adeg yma'r flwyddyn. Rwy'n edrych ymlaen yn awr i weld cyflwr y cwrs yn gwella eto yn 2011. Dymuniadau gorau i chi i gyd yn 2011 a mwynhewch y golff.
George Williams, Capten y Dynion

BLWYDDYN NEWYDD DDA I'N HOLL DDARLLENWYR

GAN GAPTEN Y MERCHED

Blwyddyn Newydd Dda iawn i holl aelodau Clwb Golff Dinbych!
Dyma fy nghyfraniad cynta' fel Capten y Merched i Gronicl Cae Drain ac roeddwn i'n ofni oherwydd y tywydd difrifol diweddar mai ychydig iawn fyddai gen i i'w rannu efo chi. Fodd bynnag, byddai'r rhai ohonoch chi'n sy'n fy adnabod yn dda yn gwybod nad oedd unrhyw berygl na fyddai gen i rywbeth i'w ddweud!
Fe ddechreuodd fy nghyfnod yn y swydd yn CCB y Merched oedd wedi'i drefnu mor dda ym mis Tachwedd. Diolch i'r holl Swyddogion Pwyllgorau sy'n sicrhau fod y noson yn cael ei chynnal mor hwylus a bod busnes y CCB yn cael ei drin mewn dull addas ac urddasol. Diolch arbennig i Mrs.Helen Owens am ei sgiliau trefnu ac am fy nghadw mewn trefn yn y cyfarfod.

Tra bo'r CCB yn gyfle i adlewyrchu ar uchafbwyntiau'r flwyddyn a fu gan ddathlu blwyddyn dda o golff, mae hefyd peth tristwch wrth i ni newid yr oruchwyliaeth. Yn amlwg, y prif newid yw Capten y Merched, ac rwy'n cymryd y cyfle yma i ddiolch i Mrs.Sondra Williams ar fy rhan fy hun ac aelodau'r merched am ei hymroddiad a'i gwaith caled yn ystod ei blwyddyn yn y swydd. Eraill yn gadael eu swyddi eleni oedd Mrs Janice Jones, Trysorydd y Merched a Mrs Jean Gwynn, Ysgrifenyddes Handicap. Mae'r ddwy wedi cyfrannu'n helaeth at hwyluso gwaith Pwyllgor y Merched ac rwy'n diolch i'r ddwy ohonoch chi am eich gwaith caled. Yn gadael Pwyllgor y Merched hefyd yr oedd Mrs Sue Baggaley a Mrs Maria Morgan; diolch i'r ddwy am eu cyfraniad i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, mae Maria wedi dychwelyd i'r Pwyllgor fel ein Ysgrifenyddes Handicap newydd ynghyd â Ms Steph Chalk, ein Trysorydd newydd. Dau benodiad ardderchog, ac rwy'n ffyddiog y bydd y ddwy'n amhrisiadwy wrth hwyluso gwaith y Pwyllgor. O sôn am benodi ardderchog, rwy'n falch iawn fod Cyn-Gapteiniaid y Merched wedi enwebu Mrs June Howatson fel Is-Gapten y Merched eleni. Mae June yn aelod gweithgar a ffyddlon o Adran y Merched a bydd yn Is-Gapten ardderchog ac yna'n Gapten teilwng maes o law. Rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at gydweithio efo June. Croeso, hefyd, i Mrs Christine Jones am ei hail dymor ar y Pwyllgor ac i Ms Alison Matthews - ei thro cyntaf!!
Rwy'n falch iawn o gadarnhau fod Mrs Jenny Jones hefyd wedi cychwyn ei thymor fel Capten Merched y Sir. Mae hyn yn anrhydedd fawr a haeddiannol i Jenny, a bydd yn Gapten ardderchog gyda blynyddoedd o brofiad a gallu i ddibynnu arnynt. Mae hefyd yn glod i Adran y Merched gael un ohonon ni'n cael ei hanrhydeddu fel hyn. Pob hwyl, Jenny, wrth y llyw.
/Trosodd

Copi o'r rhifyn hwn ar gael yn Saesneg

Dechreuodd Cynghrair y Gaeaf fis Hydref ac roedd popeth yn mynd yn dda nes i dywydd Siberia newid cyfeiriad a dod yma ar ein gwarthaf! Rwy'n falch ein bod yn ôl wrthi bellach a gobeithio na fydd mwy o amharu gan y tywydd weddill Cynghrair y Gaeaf. Yn anffodus, oherwydd y tywydd, bu'n amhosib' i mi Yrru i Ffwrdd. Ro'n i wedi bwriadu gwneud ddiwrnod Cystadleuaeth y Nadolig ond bu'n rhaid ei ganslo. Cawsom Ginio Nadolig gwerth chweil. Diolch yn fawr i'r Pwyllgor am drefnu'r pryd ac i'n Cyn-Gapten diweddara' Sondra am drefnu'r gystadleuaeth holi ar ôl bwyd ac i Alison am yr herio golff! Bydd fy Ngyrru i Ffwrdd tua dechrau'r tymor newydd.

Rwy'n falch o sylwi fod cefnogaeth dda unwaith eto i'r Gystadleuaeth Eclectig ac mae'r Merched yn gwneud eu gorau i adennill yr amser gollwyd oherwydd y tywydd. Diolch i Pauline Pierce am drefnu'r gystadleuaeth hon sy'n rhoi cymaint o fwynhad i'r Merched.

Yn ystod 2010 bu'n rhaid i'r Clwb ystyried ac ymateb i oblygiadau'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb ddiweddaraf. Pasiwyd y ddeddf er mwyn sicrhau nad oedd rhai rhannau o'r gymdeithas yn cael eu trin yn affafriol oherwydd eu anabledd, rhyw, hil neu rywioldeb ac rwy'n cefnogi'r ddeddf am y rhesymau hynny. Fodd bynnag, roedd y rhai oedd yn llunio'r ddeddf yn cydnabod yn agored y byddai clybiau golff yn cael eu targedu gan y ddedfwriaeth ddiweddara'. Yn eironig, mae'r hyn a fwriadwyd i sicrhau fod merched yn cael mwynhau cyfle cyfartal yn eu clybiau wedi arwain at lawer yn holi a ddylen nhw barhau'n aelodau. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, bu'n rhaid i Glwb Golff Dinbych fel pob clwb golff arall adolygu tâl aelodaeth a gosod yr un taliadau i ddynion a merched. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddf. Y canlyniad yw cynnydd yn nhâl aelodaeth merched i'r un lefel â'r dynion. Yn anffodus, nid oedd unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddf i wneud hyn yn raddol dros y blynyddoedd. Dyna fyddai wedi bod yn synnwyr cyffredin - pwy ddywedodd fod y gyfraith yn ffôl? Rwy'n mawr hyderu na fydd yr hyn oedd yn rhaid ei wneud yn golygu y bydd llawer o'n merched gwerthfawr yn penderfynu peidio ag ymaelodi yn 2011. Mae ein aelodaeth yn rhoi cyfle i ni gymryd rhan mewn chwaraeon difyr, mwynhau'r awyr iach, gwneud cyfeillion newydd, cynnal cyfeillgarwch oes, bod yn rhan o glwb hwyliog a chroesawgar ac i'r rhai cystadleuol yn ein mysg yn weithgaredd heriol. Ystyriwch hyn i gyd cyn penderfynu dim.

Yn olaf, ar nodyn hapusach, rwy'n falch o gadarnhau fod ein merched a gafodd flwyddyn anodd o ran iechyd yn 2010 wedi dechrau 2011 yn well. Pob hwyl i Dorothy, ein Llywydd y Merched, Hetty, Ellen a Hilda am wellhad buan

Mae gweithgareddau'r dyfodol i Adran y Merched yn cynnwys Cystadleuaeth Agored Gŵyl Ffolant ar Chwefror 11eg, Cinio Cynghrair y Gaeaf ar Fawrth 5ed, Noson Moesau Caws a Gwin ar Fawrth 18fed [yr holl gwestiynau y carech chi eu gofyn ond ofn gwneud hynny!], rownd gyntaf Cystadleuaeth Tîmau'r *Mail on Sunday* yng Nghlwb Golff Rhuddlan a dadorchuddio'n lliwiau tîm newydd!

Pob hwyl ar y golffio, ac rwy'n edrych ymlaen i'ch gweld i gyd yn fuan.

Jane E. Williams, Capten y Merched.

Lle parhaol i Aelod barcio - Taflen ddewis rhif yn Lolfa'r Bar - £1 am 2 Rif

O GWMPASY LAWNTIAU

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld gwelliannau mawr a newidiadau i'r cwrs y mae Staff Gwarchod y Cwrs i gyd yn falch ohonyn nhw, yn arbennig o glywed sylwadau da; mae'n codi calon rhywun ac mae'r blynyddoedd diwethaf tu cefn i ni erbyn hyn.

Ni fydd eleni'n wahanol, gyda gwelliannau pellach i'r cwrs a chodi safon y lawntiau, gan sicrhau fod yr holl aelodau ac ymwelwyr yn cael y profiad gorau posibl bob diwrnod.

Ar ôl eu gorchuddio ag eira, mae'r lawntiau'n ymddangos yn dda iawn, yn well na'r disgwyl, sy'n arwydd gwerthfawr o'r gwaith caled oedd wedi'i wneud gydol y flwyddyn.

Mae'r tywydd gaeafol yn sicr wedi'n taro'n galed ac yn gynnar eleni, gyda'r cwrs ar gau am bron i 4 wythnos; bu'r staff a minnau'n brysur yn ac o gwmpas y cytiau. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n gosod system trin gwastraff o wely hesg naturiol, ail-ddefnyddio'r dŵr i olchi'n peiriannau, gan ragweld arbediad o gannoedd os nad miloedd o bunnau'n y dyfodol.

Rydyn ni hefyd yn adeiladu maes parcio i staff y cwrs tu ôl i'r cytiau ar mwyn cadw'r prif lwybrau ar gyfer peiriannau a nwyddau'n cyrraedd. Yn olaf, rydyn ni'n adeiladu dau gowlas newydd ar gyfer derbyn tywod a deunydd trin wyneb y tir, mewn safle mwy hwylus i'r lorïau mawr sy'n eu cludo allu troi a dadlwytho.

Rydyn ni'n rhoi gwasanaeth i'r holl beiriannau ac offer ein hunain, ynghyd â naddu ein unedau torri ein hunain ac archwilio ac adnewyddu ein peiriannau fel newydd ar gyfer y tymor sydd i dod.

Mae gwaith y gaeaf oedd wedi'i gynllunio'n wreiddiol ar ei hôl hi'n sylweddol. Bydd angen rhoi blaenoriaeth bellach ac ynghyd â'r gwaith o ddydd i ddydd o baratoi'r cwrs, byddwn yn cwblhau'r gwaith a fydd o fudd mwyaf i'r clwb yn y flwyddyn sydd i ddod.

Mae angen i chi fel golffwyr gofio mai eich cwrs chi ydi hwn ac fod angen adfer tyllau taro, cribinio'r bynceri ac ailosod tyweirch. Yn y pen draw, os nad yw'r pethau syml yma'n cael eu gwneud, ni fydd y tyweirch yn gwella mor gyflym, bydd y lawntiau'n anwastad a staff y cwrs yn treulio amser yn gwneud yr hyn y dylai golffwyr ei wneud.

Rwy'n awyddus i glywed beth y mae aelodau ac ymwelwyr yn ei feddwl o'r cwrs bob amser, felly cofiwch gael gair efo fi pan fydda'i o gwmpas y clwb. Eleni, rwy'n bwriadu chwarae mwy o golff fy hun, gan roi cynnig arni bob pnawn Gwener, ac felly'n gwahodd unrhyw un sy'n dymuno chwarae a rhannu ei sylwadau a theimladau efo fi'n bersonol. Byddaf yn rhoi taflen i fyny ar ddydd Llun am gêm 4-pêl neu 3-pêl os yn brysur, i aelodau roi eu henwau i lawr am rownd o golff efo fi.

Diolch i chi i gyd eto am flwyddyn gyntaf wych fel Rheolwr y Cwrs; bu'n brofiad arbennig a dim ond gwella ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni allwn ni fel bo'r cwrs yn dod yn un y mae pawb eisiau chwarae arno.

Karl Parry, Rheolwr y Cwrs

CYMDEITHASOL

Blwyddyn Newydd Dda—Mae blwyddyn newydd yn dod â nifer o newidiadau o ran y pwyllgorau sy'n cynnal CGD. Mae Cyn-gadeirydd y Pwyllgor Cymdeithasol, Mr.Peter H Jones bellach yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a finnau wedi fy enwebu i'w olynu.
Rwy'n siwr fod Peter yn teimlo fod ganddo esgidiau go fawr i'w llenwi wrth olynu Martin Edwards fel Cadeirydd Cyllid, ond rwy'n teimlo felly fy hun yn olynydd iddo fo! Mae Peter wedi gwenud gwaith aruthrol yn trefnu ystod o weithgareddau amrywiol a llwyddiannus yn CGD a'm dyletswydd cyntaf i ydi diolch iddo am ei holl ymdrech a'i ymroddiad ar ran ein haelodau ac aelodau eraill y Pwyllgor Cymdeithasol.
Yn anffodus, nid yn unig y golff fu'n dioddef oherwydd y tywydd at ddiwedd 2010 ond hefyd ein calendr cymdeithasol. Bu'n rhaid gohirio dychweliad Ruth Moor Williams i'n difyrru gyda'i hwyl a'i chân oherwydd yr eira. Ruth oedd i fod i'n diddanu yn y Swper Twrci blynyddol. Gobeithio y gellir ei chael i ddod yma am noson yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.
Diolch fod yr eira wedi clirio fwy neu lai erbyn Nos Calan fel y gallai'r achlysur oedd wedi'i drefnu gyda'r band lleol Luke fynd ymlaen. Er nad oedd cymaint o docynnau â'r llynedd wedi'u gwerthu, cafwyd noson ardderchog o adloniant gyda Luke yn dangos unwaith eto sut i lanw llawr y ddawns!
Cawsom weld y Capteiniaid yn gyrru i'r Flwyddyn Newydd - gyda dreif Is-Gapten y Dynion yn llawer mwy llwyddiannus na Chapten y Merched!! Ro'n i wedi rhybuddio pawb nad ydw i'n chwaraewr golff nos!! Fodd bynnag, mae cynigion am wersi gyrru golff wedi heidio i mewn.
Aelodau'r Pwyllgor Cymdeithasol yw Is-Gapten y Merched, Sondra Williams, Peter H Jones, Eilian Williams, Kevin Parry a Janice Jones. Os oes gennych unrhyw syniadau am weithgareddau cymdeithasol at y dyfodol, cysylltwch efo fi neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor. Rydyn ni'n chwilio am syniadau newydd am achlysuron trwy'r amser ac yn croesawu awgrymiadau pob aelod.
Jane E Williams, Capten y Merched
Cadeirydd Cymdeithasol

Tei Clwb Golff Dinbych
yn awr ar werth

Llongyfarchiadau i Michelle am ennill y wobr gyntaf yn Raffl y Nadolig ac i'r holl enillwyr lwcus eraill. Os, fel fi, na enilloch chi unrhyw wobr, wel, diolch am gymryd rhan.

NODYN Y RHEOLWR

Wel, roedd 2010 yn dda a drwg: y da oedd pa mor dda yr oedd Karl a'i Dîm yn paratoi'r cwrs, a'r drwg oedd yr effaith drwg ar ein hincwm am fod yr eira wedi cau'r cwrs ym misoedd y gaeaf. Er ein bod ar gau am rai wythnosau dros y Nadolig yma, mae'r cyfrifon am ddeufis cyntaf 2011 yn eithaf derbyniol. Mae'n rhaid i ni fod yn gadarnhaol a gobeithio am well tywydd, mwy o aelodau, ac ar sail cyflwr gwell y cwrs y llynedd, mwy o ymwelwyr.
Yn ei gyfarfod nesaf, bydd y Pwyllgor Cyllid yn cadarnhau cynllun gweithredol i leihau gwariant er mwyn gwneud iawn am unrhyw golledion incwm ac i sicrhau y bydd cyfrifon 2011 yn iach ar ddiwedd y flwyddyn.
Cofiwch, am gyflwyno aelod llawn newydd, fe gewch £20 ar eich cerdyn bar, £10 am hanner blwyddyn gaeaf.
Mae anfonebau tanysgrifio blynyddol 2011 wedi eu hanfon a byddai'r Pwyllgor Gwaith yn ddiolchgar iawn pe bai aelodau yn talu mor fuan â phosibl er mwyn cynorthwyo llif arian y Clwb. Gellir talu bellach gyda cherdyn credyd/debyd ac mae rhan fwya'r cardiau'n dderbyniol.
Pob hwyl am 2011
John Williams, Rheolwr

HYNAFIAID

Ble'r aeth y flwyddyn yna?!!!! Oedd hi'n llwyddiannus o'n safbwynt ni? Cymysglyd. Yn y diwedd,'doedd canlyniadau gornestau rhyng-glybiau'r hynafiaid ddim yn dda ar ôl ennill 11 a cholli 12, y tro cynta' i ni golli dros y tymor. Yr hynafgwr â'r canlyniadau gorau yn y gornestau hyn oedd Tony Claber gyda Maurice Berg yn ail agos ato.

Roedd trefnu a chwarae'r 7 prif gystadleuaeth newydd i hynafiaid yn llwyddiant. Cafwyd cystadleuaeth fis Hydref rhwng enillydd pob prif gystadleuaeth ac enillydd cystadlaethau Llun/Mercher/Gwener yr haf i ganfod Hynafgwr Gorau'r Flwyddyn. Yn lle'r 8 chwaraewr disgwyliedig yn y gystadleuaeth, dim ond 6 oedd eleni am fod Roy Tickle (y dawnsiwr heini yn nawns ddiweddar y clwb) wedi ennill 3 o'r 7 prif gystadleuaeth. Y 5 prif enillydd felly oedd Roy Tickle, Brian Peters, Peter Howland, Gary Beaks ac Alan Brooke gyda Nobby Morris yn ennill wythnosau'r haf. Wel, roedd rhaid iddo wneud rhywbeth ar ôl gorffen adeiladu'r wal. Aeth y 6 chwaraewr allan fel dau 3-pêl a'r enillydd terfynol oedd Nobby, er bod y sgoriau stableford eithaf isel yn awgrymu fod y pwysau wedi cael y gorau arnyn nhw i gyd, ond eu bod nhw'n gwadu hynny.
Cyfrannwyd tlws newydd Hynafgwr Gorau'r Flwyddyn gan Trefor Jones; diolch yn fawr, Trefor. Mae'n dangos hen ŵr yn cymryd swing go wael at bêl golff. Yn ôl Trefor, nid oes unrhyw awgrym pwy o'r clwb yw'r hen ŵr, ond mae gen i f'amheuon.

Cynhaliwyd ein parti Nadolig blynyddol yn ddiweddar, gyda'n gwahoddedigion arferol, John a Carole o'r swyddfa'n cael croeso mawr a'r gŵr gwâdd arbennig arall oedd Capten newydd y Dynion, ar ei ddyletswydd swyddogol cyntaf. Rydyn ni'n dymuno pob llwyddiant iddo yn ystod y flwyddyn.
Yn ystod y cinio, cyflwynwyd gwydryn wedi'i ysgythru i enillwyr ein holl brif gystadlaethau fel arfer, ond eleni cyflwynwyd tancard wedi'i ysgythru i Roy Tickle am ei lwyddiant arbennig, yn hytrach na 3 gwydryn.

Fel grŵp, fe hoffem ddiolch i'r Cyn-Gapten diweddaraf a'r Capten newydd am eu cefnogaeth yn 2010. Yn ogystal, rydyn ni'n diolch hefyd i John a Carole, Cliff a'i staff, Michelle a staff y bar, Mike y Pro, ac yn ola' ond nid yn lleia' Karl a staff y cwrs am wneud y cwrs yn well nag y bu am amser maith. Gobeithio y cawn ni i gyd 2011 da ym mhob ffordd posibl.
Geoff Doherty.

GORNEST a HANDICAP

Mae'r Pwyllgor Gornest a Handicap yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd ac yn gobeirhio y cewch chi flwyddyn golffio bleserus a llwyddiannus.
Byddwn yn cael ein cyfarfod cyntaf ddiwedd y mis yma, gyda'r dyddiad i'w drefnu. Ar yr agenda, bydd Adolygu Handicap Blynyddol a threfniadau'r holl wahanol Gystadlaethau Cenedlaethol am y tymor nesa'.
Mae'r dyddiau i ffwrdd wedi'u trefnu; diolch yn fawr i Ted am ei waith caled yn trefnu rhain.

Sadwrn 14 Mai - **C G Padeswood a Bwcle**
Sadwrn 19 Mehefin - **C G Birchwood**
Sul 21 Awst - **C G Runcorn**

Rydyn ni'n edrych ymlaen i weld y Capten yn Gyrru i Ffwrdd sy'n arwydd fod y flwyddyn golffio'n dechrau.
Diolch i Karl a phawb ar y pwyllgor y llynedd am eu gwaith caled ac rwy'n edrych ymlaen i weithio gyda'r pwyllgor newydd eleni.

Gary Thomas
Cadeirydd Gornest a Handicap

Cofiwch roi gwybod i'r swyddfa os ydych yn newid eich cyfeiriad, rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost.

ARLWYO

Nid 2010 oedd y flwyddyn orau gyda'r cwrs ar gau am 6 wythnos oherwydd eira yn Ionawr a Chwefror ac am 4 wythnos yn Nhachwedd a Rhagfyr, ond mi lwyddon ni i ddod trwyddi rywsut diolch i gefnogaeth aelodau ac achlysuron cymdeithasol ymwelwyr.
Rydyn ni'n awr yn edrych ymlaen am well tywydd yn 2011 i'n helpu ni a staff y cwrs sydd wedi gwneud gwaith ardderchog; dalied ati.
Roedd 2010 yn flwyddyn heriol iawn i'm staff oherwydd fy salwch, ond fe lwyddon nhw'n arbennig.
Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth yn ystod fy salwch ac rwy'n dymuno Blwyddyn Newydd Hapus i chi i gyd.

Cliff Roberts,
Arlwywr

CORNEL Y PRO

Sêl ymlaen rwan yn Siop y Pro

Bagiau Golff - Esgidiau - Dillad Glaw
Troliau Trydan - Dreifars
Popeth yn rhatach

Diolch i John Arwel Jones am ei gymorth yn y siop dros y 15 mlynydd diwethaf. Mae John wedi penderfynu ymddeol ac rydyn ni'n dymuno'n dda iddo yn y dyfodol.

Mike Jones
Professional

WYTHNOS AGORED 2011

Prif Noddwr: ***Heineken UK***
Rhaglen y Gweithgareddau:

Sul 05 Mehefin
Pel orau Merched
Stableford. H/C Llawn. Chwarae i 3/4
Noddir gan !!

Mercher 08 Mehefin
Pel orau Dynion Hŷn (55+)
Stableford. H/C Llawn. Chwarae i 3/4
Noddir gan ***Pen Y Bryn Joinery***

Gwener 10 Mehefin
Sgrambl Tecsas
Tîm o 4 Dyn a Thîm o 4 Merch.
Medal. H/C Llawn. 10% cyfun
Noddir gan ***George Williams Insurance***

Sadwrn 11 Mehefin
Pel orau Dynion
Stableford. H/C Llawn. Chwarae i 3/4
Noddir gan ***E Jones & Sons, Dinbych***

Sul 12 Mehefin
Pel orau Cymysg
Stableford. H/C Llawn. Chwarae i 3/4
Noddir gan ***Cliff's Catering, CG Dinbych***

To save disappointment please enter sooner rather than later.

ADRAN IEUENCTID

Yn dilyn fy adroddiad diwethaf yn Awst, enillwyd Cynghrair Ieuenctid sir Ddinbych gan dîm Wrecsam a aeth ymlaen i Lanfair ym Muallt ac ennill yno, hefyd. Bydd tîm Wrecsam, felly, yn cynrychioli sir Ddinbych a Chymru yn y rownd derfynol yn Sbaen fis Ionawr. Gorffen yn bedwerydd wnaeth bechgyn Dinbych. Dechreuodd cynghrair y gaeaf ym Medi, gyda chystadlaethau 18 twll, 9 twll a 7 twll. Cefnogwyd rhain yn dda ond pan aeth y tywydd yn ddrwg bu'n rhaid canslo ambell weithgaredd. Dechreuodd yr hyfforddi gaeaf ym Medi, hefyd, ac fe'i cynhaliwyd ddwywaith y mis ym maes ymarfer Trefnant; roedd y gefnogaeth yn dda, ond er ei fod wedi darfod rwan bydd yn ail-ddechrau ddiwedd Ionawr-Chwefror. Yna, yn Ebrill byddwn yn dychwelyd i'r clwb golff i barhau gyda'r gêm fer a chael mwy o brofion.
Y chwaraewr ifanc sydd wedi gwella fwyaf eleni ydi Jake Hellon; mae wedi chwarae i ail dîm y sir ac wedi ennill tair prif gystadleuaeth. Fe'i dewiswyd i gael Hyfforddiant Sirol. Mae'n 12 oed ac mae gen i obeithion mawr am ddyfodol da iddo. Ar ran yr ieuenctid, hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Adran Ieuenctid ac i Karl a'i dîm am gyflwr ardderchog y cwrs; mae'n bleser chwarae arno.
Gobeithio fod pawb wedi cael Nadolig da, ac y byddwn yn cael blwyddyn gyffrous yn 2011.
Diolch i chi i gyd.

Bruce Carlyle
Trefnydd Ieuenctid